Carwyn Jones AM/AC
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
a'r Gweinidog dros Fusnes y Cynulliad a Chyfathrebu

Counsel General and Leader of the House
also Minister for Assembly Business and Communications

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Gorffennaf 2007

Annwyl Dafydd,

RHEOLIADAU ENSEFFALOPATHÏAU SBYNGFFURF TROSGLWYDDADWY (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF. 2) 2007

Ysgrifennaf atoch i ddweud y bydd angen dirymu Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007 (SI 2007/2043 (W. 168), a ddaeth i rym ar 18 Gorffennaf 2007, a chyflwyno rhai newydd yn eu lle. Amgaeaf gopi o lythyr fy rhagflaenydd ar 17 Gorffennaf, a oedd yn esbonio'r rhesymau dros gyflwyno'r Rheoliadau hyn a pham bod angen torri'r rheol 21 diwrnod.

Ers hynny, rwy'n deall bod testun y Rheoliadau yn cynnwys gwallau na sylwyd arnynt o'r blaen yn anffodus. Yn arbennig, mae angen cywiro'r cyfeiriad at y grymoedd i ganiatáu, atal, neu ddirymu cymeradwyaeth, trwyddedau neu gofrestriadau o fewn y Rheoliadau, a gaiff eu trosglwyddo i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (o ran awdurdodi gweithfeydd torri) ac awdurdodau lleol (o ran awdurdodi a chofrestru siopau cigyddion). Hefyd, mae'r fersiwn Cymraeg cyfredol yn cyfeirio at wartheg sydd "dros 30 mis oed" pan fyddant yn cael eu lladd, yn lle'r term cywir sef gwartheg sy'n "30 mis neu'n iau pan fyddant yn cael eu lladd". Gallai'r anghysondeb hwn olygu bod cigyddion yn torri Rheoliadau TSE y Gymuned yn ddiarwybod iddynt, trwy beidio â thorri deunydd risg penodedig (SRM) i ffwrdd o wartheg sy'n 30 mis neu'n iau pan fyddant yn cael eu lladd.

Oherwydd y gwallau hyn, rhaid dirymu Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007 a chyflwyno rhai newydd yn eu lle ar frys fel bo'r trefniadau cyfredol ar reoli deunyddiau risg penodedig yn parhau yng Nghymru – trefniadau sydd â'r nod o atal darnau o'r anifail sydd fwyaf tebygol o gynnwys haint BSE rhag cyrraedd y gadwyn fwyd a bwydydd anifeiliaid.

Daeth rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr ar 14 Gorffennaf 2007, ac yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 18 Gorffennaf 2007. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth orfodi'r Rheoliadau yn y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

DU, felly, rhaid torri'r rheoli 21 diwrnod fel bo'r Rheoliadau newydd yn dod i rym cyn gynted ag y bo modd yng Nghymru.

Paratowyd copi diwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoliadol gwreiddiol, ac mae'r rhain ynghyd â'r Rheoliadau wedi'u cyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.